# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Cynghorydd S E Baldwin** **Ward: Morfa**

**Plaid: Llafur**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Morfa** ar 8 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 62 o ymholiadau etholwyr gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyfiawnhau fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu sawl Gweithgaredd Datblygu Aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth o faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgaredd Etholaeth** (dim mwy na 200 o eiriau)

Rwy'n hynod o ffodus fod gan Forfa ddau Gynghorydd Llafur, ac rydym wedi gweithio'n galed iawn eleni i barhau i gefnogi ein cymuned ag unrhyw faterion sydd gennych. Mae'r Felin-wyllt wedi bod yn fater a hanner o ran sbwriel ac ailgylchu ond rydym yn dal i weithio i wthio am welliannau ac i fynd i'r afael â'r nifer fechan o bobl nad ydynt yn dangos ystyriaeth o'u cymunedau eu hunain. Mae hyn wedi arwain at ddyblu'r capasiti ailgylchu a chyflwyno mannau ailgylchu ychwanegol. Mae hyn hefyd wedi golygu bod mannau casglu gweddilliol pwrpasol wedi eu cyflwyno, ac rwy'n falch o ddweud ein bod wedi gweld gwelliant amlwg.

Rwyf wedi lobïo'n galed i gynnwys Parth 4 yn ymgynghoriad y mater Parcio â Thrwydded Breswyl, a byddaf yn parhau i wthio am hyn hyd nes y byddaf wedi bodloni gofynion trigolion yr ardal.

Mae gennym grŵp Facebook gweithgar iawn o'r enw Morfa Ward Hub, lle rydym yn postio ein gweithgaredd a hefyd fel eich bod yn medru cyfathrebu â ni.

Os oes angen unrhyw beth arnoch chi, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig** (dim mwy na 200 o eiriau)

Mae fy nghefndir mewn Llywodraeth Leol a'r Trydydd Sector, ac rwyf wedi treulio'r rhan fwyaf o'r amser hwn yn gweithio yn y maes Tai ac Adfywio. Mae gen i ddiddordeb gwirioneddol mewn mynd i'r afael ag eiddo gwag a sut maent yn difetha ein cymunedau. Fel addewid maniffesto'r Blaid Lafur ym Mhen-y-bont ar Ogwr, rwyf wedi defnyddio fy sgiliau a fy arbenigedd i helpu i ddatblygu'r agenda hon. Diolch i gefnogaeth Llafur a'r Cabinet, fi yw'r unig aelod di-bortffolio yn y Gweithgor Eiddo Gwag y Cyngor. Byddaf yn parhau i hyrwyddo Eiddo Gwag fel fy mod yn medru cynyddu cyflenwad tai yn ein cymunedau a manteisio i'r eithaf ar y buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o ddefnyddio'r eiddo hyn unwaith yn rhagor.

**Gweithgareddau/Materion Eraill** (dim mwy na 100 o eiriau)

Fel Cynghorydd, ac yn fy mywyd bob dydd, mae gen i ddiddordeb gwirioneddol yn yr agenda Cydraddoldeb, ac mae cyfiawnder cymdeithasol yn bwysig iawn i mi. Credaf y dylai pawb gael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Rwy'n un o ymddiriedolwyr y Parth yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Rwy'n un o ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Neuadd y Dre.

Rwyf yn aelod o fwrdd Cymdeithas Tai'r Cymoedd i'r Arfordir.

Rwyf hefyd yn Gynghorydd ar gyfer Ward Morfa i Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr.

**Cynghorydd : Stuart Baldwin** **Dyddiad: 21 Ionawr 2020**